

Cofion

- Parhawn i gofio'r cleifion yn ein plith: Gwenllian Jones (Henllan) yn Ysbyty Gymunedol Yr Wyddgrug; Gwyneth Rawson (Llanfair) yn Ysbyty Glan Clwyd; a Dilys Vaughan (Saron) sydd bellach yn yr Inffirmari. Mae'n dda cael adrodd fod Gwyn Jones (Peniel) wedi cael gadael yr ysbyty erbyn hyn. Diolchwn am y cadw sydd wedi bod arno ac am y gofal a dderbyniodd dros y misoedd diwethaf hyn. Cyflwynwn ef a gweddill y cleifion yn ein gweddïau i ofal Duw, gan hyderu y byddant yn parhau i gryfhau ac i adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd.
- Anfonwn ein cofion hefyd at ein ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal –Mrs Elsie May Edwards, Llansannan a Mrs Kitty Parry, Llanefydd (Preswylfa, Y Rhyl); Mrs Bessie Owens, Cefn Berain (Plas Llanrhaeadr); Mrs Morfudd Williams, Henllan (Tŷ Cariad, Abergele); Mrs Gwenfyl Williams, Llansannan (Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas); Mrs Elizabeth Hughes, Llansannan (Plas Eleri, Dinbych); a Miss W J Roberts a Mrs Edith Maloney, Henllan (Yr Hen Ddeondy, Llanelwy). Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd gan ofyn iddo eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.

Arian Sasiwn y Chwiorydd

Derbyniwyd neges yn diolch am haelioni Chwiorydd Sasiwn Gymraeg y Gogledd a gyfrannodd £18,720 tuag at Gasgliad Arbennig y Chwiorydd yn 2017.

Cynhelir y Sasiwn yn Rhuthun eleni, a hynny ar ddydd Mercher, Mai 2il. Eleni eto, bydd trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniadau tuag at Gasgliad Arbennig y Chwiorydd.

Nodyn i'r Trysoryddion: A wnewch chi anfon yr arian i Mair (gydag unrhyw sic eiddo yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled') CYN Ebrill 1af, os gwelwch yn dda?

I ddod

- **CYMDEITHAS CAPEL SARON** – Noson gyda Wil Tân yng Nghlwb Rygbi Dinbych, nos Sadwrn, Mawrth 24ain. Tocyn £10 yn cynnwys bwyd. Tocynnau ar gael gan aelodau'r capel neu Emyr Rees (01745) 550261.
- **LLANW** – Bydd gŵyl Gristnogol Llanw yn cael ei chynnal yng Nghydweli yn 2018 a hynny rhwng Ebrill 2il – 5ed gyda phrif weithgareddau'r ŵyl yn cael eu cynnal yng Nghanolfan y Dywysoges Gwenllian yng Nghydweli a'r llety yn cael ei ddarparu yn y *Carmarthen Bay Holiday Park* ychydig filltiroedd i ffwrdd. Ewch i'r wefan www.llanw.org am fwy o fanylion a ffurflen archebu.
- **WORD ALIVE** – Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Ebrill 7fed-12fed. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: www.wordaliveevent.org
- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** – Noson Gymdeithasol yn Ffestri Capel Mawr, Dinbych nos Fercher, Ebrill 11eg am 7.00 yng nghwmni Elin Bryn Williams. Darperir lluniaeth ysgafn am bris rhesymol.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 4^{ydd} Mawrth 2018

Darlleniad y Dydd

Salm 130

(BCND tud.567 / BCN tud.518)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso cynnes iawn i chi, gobeithio eich bod wedi cadw'n gynnes yn yr eira mawr! Dewch at yr Arglwydd bore 'ma am noddfa ac am gysur. Rhowch eich ymddiriedaeth yn yr un sy'n gwbl ddibynadwy, yr un wnaiff byth eich gadael i lawr.

Mae gan Sarah nifer fawr o rinweddau canmoliaethus, ac yn amlwg dwi'n ei charu yn fawr iawn. Ond, am ryw reswm dydy cofio ble mae ei goriadau ddim yn un ohonyn nhw. Mae adegau wedi bod ble mae'r ddau ohonom wedi bod yn chwilio am hydoedd am oriad car er mwyn i Sarah fynd i'r gwaith, dim ond i'w ddarganfod ym mhoced y got oedd hi'n ei gwisgo ddoe! Mi fedrwch chi ddychmygu'r sefyllfa: y ddau ohonom ni'n taflu cwshins o gwmpas y stafell fyw, codi'r sofffa, edrych trwy'r silff lyfrau, tu mewn i'r popty. Yr unig beth oeddem ni eisiau oedd dod o hyd i'r goriadau yma. Yr unig beth oedd yn mynd i ddatrys y broblem oedd ffeindio'r goriadau.

Dyma ydy'r agwedd sydd gan awdur Salm 130 at ffeindio noddfa yn yr Arglwydd. Darllenwn ei fod mewn argyfwng a gwewyr personol (130:1-2). Tybed faint ohonom ni sydd wedi galw ar yr Arglwydd fel yma o'r blaen? Yn galw wedyn ar Dduw am drugaredd a maddeuant am ein heuogrwydd a'n pechod (130:3-4). Yn yr adegau yma, tybed a ydym yn parhau i chwilio am yr Arglwydd, neu ydym ni'n ceisio llenwi'r bwch gyda rhywbeth arall, yn debyg i ni'n chwilio am y goriadau, ac yn penderfynu trio defnyddio goriadau'r tŷ i agor y car, neu hyd yn oed yn rhoi i fyny a ffonio i gael esgusodiad o'r gwaith.

Mae adnod 6 yn rhoi cipolwg i ni o agwedd y Salmydd tuag at yr Arglwydd: *Dw i'n dyheu i'r Meistr ddod fwy na'r gwylwyr yn disgwyl am y bore, ie, y gwylwyr am y bore.* Mae'n dyheu am yr Arglwydd yn fwy na mae'r gwylwyr yn disgwyl am y bore. Meddylwch am y bobl oedd yn gwyllo o ben waliau'r ddinas rhag ofn i'r gelyn ymosod ganol nos. Tybed faint oedden nhw'n dyheu i oleuni saff y bore ddod? Pa mor frawychus oedd gwyllo am fyddin oedd am ddod i orchfygu'r ddinas?

Mae'r Salmydd yn dyheu am yr Arglwydd yn fwy na hynny hyd yn oed. Roedd yn sychedu am gael bod yng ngwres cadarn cariad Duw. Tybed ydym ni'n dyheu am yr Arglwydd fel hyn? Ydym ni'n erfyn am berthynas gyda fo o flaen pob peth arall?

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Gwion

Darlleniad Wythnos Nesaf

Marc 12:28-34 (BCND tud.53 / BCN tud.49)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 7^{fed}
lau – 8^{fed} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 5.00.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.
- Gwener – 9^{fed} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sadwrn – 10^{fed} ➤ **Byw a Dweud** – Diwrnod i'n harfogi a'n hysbrydoli i rannu ein ffydd ag eraill gyda Mike Adams, Chloe Richards a Dai Hankey yn Eglwys Crist, Y Bala. Croeso i ieuenctid 15+ ac oedolion o bob oed. Cost y diwrnod, gan gynnwys cinio ysgafn yng Ngholeg y Bala, fydd £10 (os mewn addysg) neu £15 (os mewn gwaith). Mae'n bosib cofrestru ar-lein trwy fynd i dudalen 'Byw a Dweud' ar wefan souledoutcymru.net, neu cysylltwch â Choleg y Bala (01678 520565).
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah a bydd Gwion yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Bydd Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Bydd Dafydd Timothy yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgolion Sul yn cydreddeg. Yn ystod y gwasanaeth yng Nghefn Berain, bydd yr eglwys yn gofyn, trwy bleidlais gudd, farn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.

Cyhoeddiadau

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Bydd Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Nantglyn **am 10.00.**
- Mercher – 7^{fed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW (4^{ydd})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Saron ac ym Mheniel am 10.00. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Mawrth – 6^{ed} ➤ Cynhelir Clwb Ysgol Sul Saron yn Ffestri'r Capel am 3.15.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Groes am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00. Yng Nghapel Henllan, bydd yr Ysgol Sul am 10.00 a chynhelir Gwasanaeth Gŵyl Ddewi Undebol am 2.00 gyda Rhodri yn pregethu. Bydd paned i ddilyn.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.